SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Theresa May MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: WR/AH/AJ

29 Gorffennaf/July 2013

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

**Adroddiad AHEM ar bwerau stopio a chwilio: Yw'r Heddlu yn eu defnyddio'n effeithiol a theg?**

Yn unol â'r angen statudol, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar yr adroddiad AHEM ar 'Bwerau Stopio a Chwilio: Yw'r Heddlu yn eu defnyddio'n effeithiol a theg?'

Rydw i'n croesawu'r adroddiad ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio, rydw i hefyd yn croesawu eich cyhoeddiad diweddar ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y defnydd o stopio a chwilio. Fel yr adlewyrchir yn adroddiad adborth Gogledd Cymru, nid wyf hyd yma wedi dod ar draws unrhyw bryderon sylweddol gan y cyhoedd ar y defnydd o stopio a chwilio yma. Fodd bynnag, rydw i'n gwneud gwaith pellach er mwyn bodloni fy hun am y mater hwn. Rydw i wedi gofyn i drigolion lleol gysylltu â mi os oes ganddynt unrhyw bryderon am y defnydd o bwerau stopio a chwilio yng Ngogledd Cymru, er mwyn fy ngalluogi i ymateb i'ch ymgynghoriad ac i roi gwell syniad i mi o ran y pryderon sy'n bodoli'n lleol.

Roeddwn yn gweld craidd yr adroddiad ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y defnydd o bwerau stopio a chwilio yn ddiddorol, yn enwedig mewn amseroedd ariannol heriol. Tawelwyd fy meddwl gan ddarganfyddiadau

Dear Home Secretary

**HMIC Report Stop and Search Powers: Are the police using them effectively and fairly?**

As required by statute, I am writing to you with my comments on the HMIC report on 'Stop and Search Powers: Are the police using them effectively and fairly?'

I warmly welcome the report on the use of stop and search powers, and I also would like to welcome your recent announcement on the public consultation into the use of stop and search. As reflected by the North Wales feedback report, to date I have not encountered any significant concerns by residents on the use of stop and search here. However I am undertaking further work to satisfy myself on this matter. I have asked local residents to contact me if they have any concerns over the use of stop and search powers in North Wales, to enable me both to respond to you on your consultation and importantly for me to gain greater insight into whether or not there are any concerns locally.

I found the focus of the report on the effectiveness and efficiency of the use of the stop and search powers insightful, particularly in challenging financial times. I was reassured by HMICs findings locally

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

diweddar AHEM yn lleol a ddangosodd cyfradd uwch o resymau digonol dros stopio a chwilio o gymharu â'r casgliadau cenedlaethol nad oedd 27% (2,338) o achosion stopio a chwilio a archwiliwyd gan AHEM yn cynnwys amodau rhesymol i chwilio pobl. Mae hwn yn faes y byddaf yn parhau i'w fonitro yn y dyfodol.

*"Rhoddwyd enghreifftiau o oruchwylwyr yn herio rhesymau swyddogion. Roedd Swyddogion wedi cofnodi rhesymau digonol mewn 179 o'r 200 cofnod stopio a chwilio a archwiliwyd fel rhan o'r arolwg." Dyfyniad o adroddiad adborth Gogledd Cymru.*

O safbwynt personol credaf y gall stopio a chwilio fod yn declyn plismona effeithiol ac y gall, mewn amgylchiadau priodol a phenodol gyfrannu at y broses o dawelu meddyliau'r cyhoedd a sicrhau gweledededd yr heddlu mewn cymunedau, helpu'r heddlu i ddal troseddwyr ac atal trosedd (wedi'i adlewyrchu yng nghanlyniadau yougov bod 80% o'r cyhoedd yn cytuno ei fod o gymorth i ddal troseddwyr a bod 77% yn cytuno ei fod o gymorth i atal trosedd).

Rhywbeth a oedd o beth pryder oedd darganfyddiadau'r adroddiad a oedd yn nodi bod Gogledd Cymru yn cymharu yn eithaf isel o ran y ganran o achosion o stopio a chwilio a oedd yn arwain at arestio rhywun. Fodd bynnag, rwy'n dawel fy meddwl o weld bod yr adroddiad yn nodi bod y mwyafrif o'r achosion hynny yn dangos sail resymol dros stopio a chwilio a'm dealltwriaeth i o'r pŵer yw y dylid ei ddefnyddio os oes amheuaeth ddigonol i gyfiawnhau stopio a chwilio, nid amheuaeth ddigonol i arestio.

that demonstrated higher proportions of recording sufficient grounds for undertaking stop and search in comparison to the national findings that 27% (2,338) of stop and search records examined by HMIC did not contain reasonable grounds to search people. This is an area that I will continue to monitor in the future.

*"Examples were given of supervisors challenging officers grounds. Officers had recorded sufficient grounds in 179 of the 200 stop and search records examined as part of the inspection." Extract from North Wales feedback report*

From a personal perspective I believe that stop and search can be a powerful policing tool and can, in appropriate and certain circumstances be part of reassuring the public and ensuring police visibility in communities, helping the police to catch criminals and preventing crime (reflected in the yougov survey findings that 80% of the public agreed that it helps catch criminals and 77% agreed that it helps prevent crime).

Of some concern were the report's findings that North Wales compared comparatively poorly on the percentage of the use stop and search powers that led to an arrest. I am reassured that the report found that the majority of cases had documented reasonable grounds, and my understanding of the power is that it should be used if there is reasonable suspicion to conduct a stop and search not sufficient grounds for arrest.

Felly o bwyso a mesur, gallai'r darganfyddiad hwn fod yn gymesurol gan y gallai'r defnydd o'r pŵer hwn alluogi swyddogion i weithredu ar eu hamheuon, i chwilio am dystiolaeth posibl i gefnogi'r amheuon hynny - **yn hytrach na gwneud dim**. Os yw'r amheuon hyn yn annigonol o ran arwain at arest, ni ddylai swyddogion gael eu hannog i beidio â defnyddio'r pŵer hwn mewn modd cymesur neu gael eu gwneud i ofni y gallai canlyniadau anghymesur godi os y byddant yn gweithredu o fewn cylch gwaith y cod ac yn cynnal chwiliad ar sail resymol. Fel y nodir yn glir o fewn y cod, ni ddylai'r sail ar gyfer stopio a chwilio ymwneud ag ethnigrwydd, rhyw, oedran na nodweddion eraill sydd wedi'u hamddiffyn - rhaid ei fod ar sail resymol.

Therefore on balance this finding may be proportionate as the use of this power may provide officers with an option to act on suspicions, to seek potential evidence to support those suspicions - **rather than doing nothing**. If the suspicions prove insufficient to lead to an arrest, officers should not be discouraged in using this power proportionately or be made to fear that there may be disproportionate consequences for them if they act within the remit of the code and conduct a search on reasonable grounds. As clearly stated within the code the grounds for conducting a stop and search should not be based on someone's ethnicity, gender, age or the other protected characteristics – it must be based on reasonable grounds.

Roedd y sylwadau yn yr adroddiad am yr oedi o ran cwblhau ffurflenni electronig hefyd yn ddefnyddiol. Mae plismona ardaloedd gwledig yn golygu bod angen cadw cydbwysedd rhwng yr angen i fod allan yn gweithio yn y cymunedau a chwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Bydd technoleg yn parhau i gynorthwyo arloesedd a gwelliannau er mwyn cyflawni'r cydbwysedd hwn ond mae cyfyngiad i hyn ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn edrych arno'n lleol a byddem yn croesawu'r cyfle i ddysgu'n genedlaethol neu o feysydd eraill a allent ein cynorthwyo â'n datblygiad.

Within the report I also found the comments about the time delay in completing electronic forms useful. Policing rural areas does mean that there is a need to balance between being out working in communities and completing necessary paperwork. Technology will continue to aid innovation and improvements in reaching this balance, but at present it has its limits. This is something we are currently looking at locally, and would welcome national or learning from other areas that may aid our progress.

Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith y canfuwyd bylchau posibl o ran cyfathrebu a hyfforddiant, ac rwy'n ymwybodol fod y Prif Gwnstabl yn cymryd camau i wella hyn. Bydd y ddau ohonom hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus. Byddaf yn parhau i graffu ar y gweithgareddau yr ymgymerir â nhw yn y maes hwn yn y dyfodol yn dilyn canfyddiadau AHEM yn lleol ac

I appreciate the identification of potential communication and training gaps within the force, and am aware the Chief Constable is taking steps to address this. We will both also take steps to ensure that better information is made publically available. I will continue to scrutinise the activities undertaken in this area in the future in light of the HMIC findings locally and any

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

| | |
|---|---|
| unrhyw adborth y byddwn yn ei gael gan y cyhoedd. | feedback we receive from the public. |
| Yn gywir | Yours sincerely |

Winston Roddick CB QC
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

cc. Prif Gwnstabl/Chief Constable Mark Polin
Drusilla Sharpling, HM Inspector of Constabulary, Wales and the Western Region

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489